Adran Uwchradd, Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Ynysydarren, Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, SA9 2DY.
(01639) 842129
YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

April 2022

Dear Parent / Guardian,

At the end of a very busy half term, I am delighted to contact you to keep you up to date with our arrangements and procedures and to share good news.

**Estyn Visit**

Our half term began with a visit from a team of eleven inspectors. Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur was the first 3-18 school to receive an inspection as part of the new regime. The focus was almost exclusively on our pupils and during the week over 50 lessons were observed, countless books were scrutinised, interviews were conducted with groups of pupils from each year, there were meetings with the school parliament and various committees and individuals were given opportunities to express their views as inspectors moved from lesson to lesson. I would like to thank those parents who completed the questionnaire and attended the parents' meeting at the start of the week, your support was greatly appreciated. The official report will be published on May 5$^{th}$ and we will share the document with you shortly after; it is safe to say that our pupils made an excellent impression on the inspectors. They are a credit to you as families and to us as a school and we are proud of their success and their development as moral and principled individuals.

**Learning outside the classroom**

Once again, our pupils have been enjoying outdoor learning experiences including a very exciting trip to Glanllyn for Year 6 pupils where a host of activities were undertaken including climbing, raft construction and canoeing. An extra special experience after such a long period without residential visits due to the pandemic. Year 1 and 2 pupils have enjoyed a fun day working on their Science work including experimenting with different materials to see which rocket was able to travel the highest in the air! The pupils were delighted with the experience. We are very excited about Miss Lloyd's plans to commence our forest school provision with dosbarth Blodeuwedd. We looked forward to seeing and hearing about the pupils' experiences.



Year 7 had an excellent week with Call of the Wild working on endurance and perseverance skills. The course included exciting adventure activities, namely gorge walking and rock climbing, where the pupils used the skills developed by working out of their comfort zone. Congratulations to all the pupils who were involved in the initiative.





In addition, we have celebrated a number of important days in the nation's calendar such as:

- Poetry day with Bardd Plant Cymru Casi Wyn
- 100 years the Urdd where red, white and green were worn and a performance of Hey Mr Urdd was recorded.
- Diwrnod Santes Dwynwen with the 'Cariad' raffle
- World Book Day with various costumes and a 'Murder Mystery' by the English department.






**The successes of our pupils**

Congratulations to Morgan Morse on being included in the Wales under-20s squad, an incredible achievement given his age (17). Congratulations also to Rhodri Lewis on being selected to the Under-18 Welsh rugby squad.



Great news that Kieran and Llien represented Wales in Short Mat Bowls. Congratulations to the Canolfan Gwenallt 7-a-side rugby team who were champions of the prestigious Llandovery School Tournament. The school's first XV team who are also through to the Welsh Cup final and play at the Principality stadium on April 26th.

Away from the playing fields, we are proud of Meagan Griffiths' excellent achievement in being elected to represent NPT in the British Youth Parliament. Congratulations also to Maddie Pritchard who has accepted the post of NPT Youth Mayor. It was also pleasing to read about Siôn Lloyd's success on the performance stage and his award as the winner of the best soloist in the third division Cheltenham Brass Competition.





**School website, Curriculum for Wales and Wonderful Work.**

The website has now been fully populated with all the key information and it looks great. I would like to thank everyone who has contributed to this project and would like to kindly invite you to visit the website to see how we market the great work of our pupils: http://www.ysgolystalyferabrodur.cymru/

**Safeguarding**

As you know, wellbeing and mental health are a priority for us, and once again our PSE day this term was a great opportunity to welcome specialists to the school to ensure unique provision for pupils of all ages. We welcomed PC Hughes back for a workshop on drugs and alcohol, Camau ran a session on healthy relationships and year 7's focus was on maintaining friends. In addition, Platform for Young People has been working with pupils from years 10 and 11 on Mental Health. We would like to thank all our contributors for their special support and care for our young people.

**Farewell and Thank You**

At the end of this term, three members of staff will leave us following their promotions in new organisations. Miss Victoria Dazely will leave us to join our sister school Ysgol Gwaun Cae Gurwen and we wish her well in her new post and thank her for her care and attention to our pupils. Miss Angharad Daniels will leave us to a new post at Ysgol y Strade following four excellent years in our company. Miss Daniels has done a great job leading whole-school initiatives to enrich pupils' experiences e.g. the Virtual Eisteddfod and the Camp y Cymry competitions. Mr Ian Jones will leave us following 19 years of service to school and will be moving into Further Education with Trinity Saint David's University training prospective teachers. We are grateful to Mr Jones for his excellent work in developing a highly successful Public Services course and for his guidance to pupils as Head of Year. Both will be sorely missed, but we wish them every success and blessing in their future.

**Summer Term**

Looking forward to the final term, I would like to draw your attention to the following matters:

**Summer School Uniform**

After the Easter holidays we will allow pupils to wear a Summer uniform. During the final term, pupils will be permitted to wear:

- The school's official polo shirt
- Official school sports shorts
- Black trainers

Pupils will not be allowed to wear skorts or leggings, if your child does not want to wear shorts, normal trousers or skirt must be worn with socks or tights. We thank you in advance for your support and co-operation in this matter

**External examinations:**

We have received confirmation that all examinations will run as normal for the summer timetable. We have ensured that risk assessments are in place for our centres and have ensured that safety for our pupils is our priority. We have already shared an exam timetable and we kindly ask you to ensure that you have the dates clear in your diaries. If you have any concerns please contact our exam officer Mrs Cathrin Michael immediately via main reception or email michaelc19@hwbcymru.net.

**New access arrangements to Ystalyfera Secondary site**

Construction on the front side of the school is now coming to an end, and from April 25th, we will have a new traffic system. A one-way system will be in operation where access will be via St David's Road gate followed by an exit through the bus bay to Ynysydarren Road. The pedestrian entrance continues to be through Ynysydarren Road and we ask that you drop your child off at the gate by 8.35a.m. The school will now be a completely safe location and in order to gain access you will need to call the main office through the intercom system at each gate. Thank you for your patience as we familiarise ourselves with the new process.

**Summer Term Calendar**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Monday | 25 | April | Term starts – school for all |
| Thursday | 28 | April | Gwenallt Centre Open Evening |
| Monday | 2 | May | *May Festival* |
| Thursday | 12 | May | Parents evening Yr7 YGY |
| Friday | 13 | May | Year 11 and 12 finish |
| Monday | 16 | May | GCSE / AS examinations start |
| Friday | 20 | May | Reception class assembly<br>Year 13 finish |
| Monday | 23 | May | A level examinations start |
| Friday | 27 | May | Nursery class assembly |
| 30/05 – 03/06 | | | *Half term / Urdd Eisteddfod Denbighshire* |
| Thursday | 9 | June | Parents Evening Yr8 YGY |
| Friday | 10 | June | Reports Yr 9 |
| Monday | 13 | June | Year 12 work experience week |
| Monday | 20 | June | Health and Wellbeing Week<br>Start of year 10 internal exam week<br>Year 12 Leadership Week |
| Friday | 1 | July | INSET 4 |
| Friday | 8 | July | Primary School end of year reports |
| Monday | 11 | July | INSET 5 |
| Tuesday | 12 | July | Primary School parents meeting to discuss reports |
| Wednesday | 13 | July | School Show |
| Thursday | 14 | July | School Show |
| Friday | 15 | July | School Show |
| Tuesday | 19 | July | YGY Awards Evening |
| Wednesday | 20 | July | End of year reports |
| Thursday | 21 | July | End of term for pupils |
| Friday | 22 | July | INSET 6 |
| Thursday | 18 | Aug | AS + A2 Results |
| Thursday | 25 | Aug | GCSE results |

Yours faithfully,

Laurel S. Davies

Laurel S. Davies
Head

Adran Uwchradd, Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Ynysydarren, Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, SA9 2DY.
(01639) 842129
YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

Ebrill 2022

Annwyl Rieni / Warcheidwad,

Ar ddiwedd hanner tymor prysur iawn, braf yw gallu cysylltu gyda chi er mwyn eich diweddaru am ein trefniadau a’n gweithdrefnau a rhannu newyddion.

**Ymweliad Estyn**

Cychwynnodd ein hanner tymor gydag ymweliad gan dîm o un ar ddeg arolygydd. Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur oedd yr ysgol 3-18 cyntaf i dderbyn arolygiad fel rhan o’r drefn newydd. Roedd y ffocws bron yn gyfan gwbl ar ein disgyblion ac yn ystod yr wythnos arsylwyd dros 50 o wersi, craffwyd ar lyfrau di-ri cynhaliwyd cyfweliadau gyda grwpiau o ddisgyblion o bob blwyddyn, cafwyd cyfarfodydd gyda’r senedd ysgol a phwyllgorau amrywiol a rhoddwyd cyfleoedd i unigolion datgan eu barn wrth i’r arolygwyr symud o wers i wers. Gai ddiolch i’r rhieni hynny a gwblhaodd yr holiadur ac a fynychodd y cyfarfod rhieni ar gychwyn yr wythnos, roedd eich cefnogaeth wedi cael ei werthfawrogi’n fawr. Bydd yr adroddiad swyddogol yn cael ei gyhoeddi ar Fai 5ed a byddwn yn rhannu’r ddogfen gyda chi yn fuan wedi hyn, ond diogel yw dweud bod ein disgyblion wedi creu argraff arbennig ar yr arolygwyr. Maent yn glod i chi fel teuluoedd ac i ni fel ysgol ac rydym yn ymfalchïo yn eu llwyddiant ac yn ymhyfrydu yn eu datblygiad fel unigolion moesol ac egwyddorol.

**Dysgu tu allan i’r ystafell ddosbarth**

Unwaith eto, mae'n disgyblion wedi bod yn mwynhau profiadau dysgu yn yr awyr agored gan gynnwys taith cyffrous iawn i Lan-llyn ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ble wnaethpwyd llu o weithgareddau hwylus gan gynnwys dringo; adeiladu rafft a chanwio. Profiad arbennig ar ôl cyfnod hir heb ymweliadau preswyl oherwydd y pandemig. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 wedi mwynhau diwrnod yn llawn hwyl wrth weithio ar eu gwaith Gwyddoniaeth gan gynnwys arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau i weld pa roced oedd yn gallu teithio'r uchaf i'r awyr! Roedd y disgyblion wrth eu boddau gyda'r profiad. Rydym yn gyffrous iawn am gynlluniau Miss Lloyd i ddechrau ar ein darpariaeth ysgol goed gyda Blodeuwedd. Edrychwyn ymlaen yn fawr i weld a chlywed am brofiadau'r disgyblion.



Cafodd Blwyddyn 7 wythnos rhagorol gyda Cri’r Gwyllt yn gweithio ar dygnwch a dyfalbarhad Roedd y cwrs yn cynnwys gweithgaredd antur fel cerdded ceunentydd a dringo, gan ddefnyddio’r sgiliau a ddatblygwyd trwy eu gwthio allan o'u parth cysur. Llongyfarchiadau I’r holl ddisgyblion a fuodd yn rhan o’r fenter.





Yn ogystal â hyn, rydym wedi dathlu nifer o ddiwrnodau pwysig yng nghalendr y genedl megis:

- Diwrnod barddoniaeth gyda Bardd Plant Cymru Casi Wyn
- 100 mlwyddiant yr Urdd lle gwisgwyd coch, gwyn a gwyrdd a recordiwyd perfformiad o Hei Mr Urdd.
- Diwrnod Santes Dwynwen gyda'r raffl 'Cariad'
- Diwrnod y Llyfr gyda gwisgoedd amrywiol a 'Murder Mystery' gan yr adran Saesneg.






**Llwyddiannau ein disgyblion**

Llongyfarchiadau i Morgan Morse ar gael ei gynnwys yng ngharfan Cymru dan 20 oed, camp anhygoel o ystyried ei oedran (17oed). Llongyfarchiadau hefyd i Rhodri Lewis ar gael ei ddewis i garfan rygbi Cymru dan 18oed.



Newyddion gwych bod Kieran a Llien wedi cynrychioli Cymru yn Short Mat Bowls. Llongyfarchiadau i dîm rygbi 7 bob ochr Canolfan Gwenallt -pencampwyr Twrnamaint Ysgol Llanymddyfri. Mae Tîm Cyntaf XV yr ysgol hefyd trwyddo i rownd derfynol Cwpan Cymru ac yn chwarae yn stadiwm y Principality ar Ebrill 26ain.

I ffwrdd o'r caeau chwarae, rydym yn ymfalchïo yn llwyddiannau Meagan Griffiths ar gael ei hethol i gynrychioli CNPT yn y British Youth Parliament. Llongyfarchiadau hefyd i Maddie Pritchard sydd wedi derbyn swydd Youth Mayor CNPT. Braf oedd darllen am lwyddiant Siôn Lloyd ar y llwyfan berfformio a'i wobr fel unawdydd is adran Cheltenham Brass Competition.





**Gwefan yr ysgol + Cwricwlwm i Gymru + Gwaith Gwych.**
Bellach mae'r wefan wedi poblogi gyda'r holl wybodaeth ac yn edrych yn wych. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith hwn. Gai eich gwahodd yn garedig i ddod at y wefan i weld sut rydym yn marchnata gwaith gwych ein disgyblion: <http://www.ysgolystalyferabrodur.cymru/>

**Diogelu**
Fel y gwyddoch, mae lles ac iechyd meddwl yn flaenoriaeth gennym, ac unwaith eto roedd ein diwrnod ABCh y tymor hwn yn gyfle gwych i groesawu arbenigwyr i'r ysgol er mwyn sicrhau darpariaeth unigryw i ddisgyblion o bob oed. Croesawyd PC Hughes yn ôl ar gyfer gweithdy cyffuriau ac alcohol, buodd cwmni Camau yn cynnal sesiwn ar berthnasau iach ac roedd ffocws blwyddyn 7 ar gynnal ffrindiau. Yn ogystal â hyn, mae Platform for Young People wedi bod yn gweithio gyda disgyblion o flynyddoedd 10 ac 11 ar Iechyd Meddwl. Hoffem ddiolch i'n holl gyfranogwyr am eu cefnogaeth a'u gofal arbennig dros ein pobl ifanc.

**Ffarwelio a Diolch**
Ar ddiwedd y tymor hwn, bydd tri aelod o staff yn ein gadael yn dilyn dyrchafiad mewn sefydliadau newydd. Yn yr adran gynradd mae Miss Victoria Dazely wedi derbyn swydd yn ein chwaer ysgol Gwaun Cae Gurwen; rydym yn diolch o galon iddi am ei gwasanaeth dros y ddau dymor diwethaf ac am ei gofal dros ein disgyblion. Bydd Miss Angharad Daniels yn ein gadael i swydd newydd yn Ysgol y Strade ar ôl pedair blynedd ragorol yn ein cwmni. Mae Miss Daniels wedi gwneud gwaith gwych yn arwain mentrau ysgol gyfan i gyfoethogi profiadau disgyblion e.e. yr Eisteddfod Rithiol a chystadlaethau Camp y Cymry. Bydd Mr Ian Jones yn ein gadael yn dilyn 19 mlynedd o wasanaeth i'r ysgol ac yn symud i fyd Addysg Bellach gyda Phrifysgol y Drindod Dewi Sant yn hyfforddi darpar athrawon. Rydym yn ddiolchgar i Mr Jones am ei waith gwych yn datblygu cwrs hynod lwyddiannus Gwasanaethau Cyhoeddus ac am ei arweiniad i ddisgyblion fel Pennaeth Blwyddyn. Bydd y ddau yn gadael gwagle ond rydym yn dymuno pob llwyddiant a phob bendith iddynt yn eu dyfodol.

**Tymor yr Haf**
Wrth edrych ymlaen at y tymor olaf, hoffwn dynnu eich sylw at y materion canlynol:

**Gwisg Ysgol Haf**
Ar ôl gwyliau Pasg byddwn yn caniatau i ddisgyblion wisgo gwisg Haf. Am y tymor olaf, bydd caniatad i ddisgyblion wisgo:

- Crys polo swyddogol yr ysgol
- Byrion chwaraeon swyddogol yr ysgol
- Esgidiau / trainers du

Nid oes caniatad i wisg skort na leggings, os nad yw eich plentyn eisiau gwisgo byrion, rhaid gwisgo trowsus neu sgert arferol gyda sanau neu teits. Rydym yn diolch ymlaen llaw i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn y mater yma.

**Arholiadau allanol:**
Rydym wedi derbyn cadarnhad y bydd pob dim yn rhedeg fel arfer ar gyfer yr arholiadau allanol. Rydym wedi sicrhau bod asesiadau risg mewn lle ar gyfer ein canolfannau ac fel bydd gofal ar gyfer ein disgyblion yn flaenoriaeth gennym. Eisoes rydym wedi rhannu amserlen arholiadau a gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod y dyddiadau yn glir gennych yn eich dyddiaduron. Os oes gennych unrhyw bryderon cysylltwch ar unwaith gyda'n swyddog arholiadau Mrs Cathrin Michael trwy'r brif dderbynfa neu e-bostiwch trwy michaelc19@hwbcymru.net

**Trefniadau mynediad newydd i safle Uwchradd Ystalyfera**

Erbyn hyn, mae'r gwaith adeiladu ar ochr flaen yr ysgol yn dod i ben, ac o Ebrill 25ain ymlaen, bydd gennym system traffig newydd. Bydd system un ffordd yn cael ei weithredu lle bydd y mynediad trwy giât Heol Dewi St ac yna allanfa trwy'r bae bysiau i Heol Ynysydarren. Mae mynedfa i gerddwyr yn parhau i fod trwy Heol Ynysydarren a gofynnwn i chi ollwng eich plentyn wrth y giât erbyn 8.35a.m. Bydd yr ysgol bellach yn leoliad hollol ddiogel ac er mwyn cael mynediad bydd angen i chi alw'r brif swyddfa trwy'r system intercom sydd wrth bob giât. Diolch am eich amynedd wrth i ni gyfarwyddo gyda'r system newydd.

**Calendr Tymor yr Haf**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llun | 25 | Ebrill | Tymor yn cychwyn – ysgol i bawb |
| Iau | 28 | Ebrill | Noson Agored Canolfan Gwenallt |
| Llun | 2 | Mai | *Gŵyl Fai* |
| Iau | 12 | Mai | Noson Rieni Bl.7 YGY |
| Gwener | 13 | Mai | Blwyddyn 11 a 12 yn gorffen |
| Llun | 16 | Mai | Arholiadau TGAU / UG yn cychwyn |
| Gwener | 20 | Mai | Gwasanaeth y dosbarth derbyn<br>Blwyddyn 13 yn gorffen |
| Llun | 23 | Mai | Arholiadau U yn cychwyn |
| Gwener | 27 | Mai | Gwasanaeth y Meithrin |
| 30/05 – 03/06 | | | *Hanner tymor / Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych* |
| Iau | 9 | Mehefin | N Rieni Bl.8 YGY |
| Gwener | 10 | Mehefin | Adr llawn Bl.9 |
| Llun | 13 | Mehefin | Wythnos profiad gwaith blwyddyn 12 |
| Llun | 20 | Mehefin | Wythnos Iechyd a Lles CS-CA3 /<br>Cychwyn wythnos arholiadau mewnol blwyddyn 10<br>Wythnos Arweinyddiaeth Blwyddyn 12 |
| Gwener | 1 | Gorffennaf | HMS 4 |
| Gwener | 8 | Gorffennaf | Adroddiadau llawn yr Adran Gynradd |
| Llun | 11 | Gorffennaf | HMS 5 |
| Mawrth | 12 | Gorffennaf | Noson rieni yr Adran Gynradd i drafod yr adroddiad |
| Mercher | 13 | Gorffennaf | Sioe Ysgol |
| Iau | 14 | Gorffennaf | Sioe Ysgol |
| Gwener | 15 | Gorffennaf | Sioe Ysgol |
| Mawrth | 19 | Gorffennaf | Noson Wobrwyo YGY |
| Mercher | 20 | Gorffennaf | Adr Llawn Bl.7, 8 a 10 YGYBD |
| Iau | 21 | Gorffennaf | Diwedd tymor i ddisgyblion |
| Gwener | 22 | Gorffennaf | HMS 6 |
| Iau | 18 | Awst | Canlyniadau UG + A2 |
| Iau | 25 | Awst | Canlyniadau TGAU |

Yn gywir,



Laurel S. Davies
Pennaeth